**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 15 Mawrth 2022 am 5.00pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A. Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D. Williams | Y Cynghorydd S. Bradwick |
| Y Cynghorydd G. Holmes | Y Cynghorydd P. Howe |
| Y Cynghorydd L. Jones | Y Cynghorydd S. Morgans |
| Y Cynghorydd S. Powderhill | Y Cynghorydd T. Williams |

**Swyddogion yn bresennol:-**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Cwnstabl J. Roberts – Heddlu De Cymru

**80 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Cox.

**81 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

**82 Deddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**83 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022 yn rhai cywir.

**84 Trafod cadarnhau’r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o

Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**85 Trafod y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:**

Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion y cais canlynol ar gyfer rhoi Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr CE o Bontypridd ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.43pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**